



Galwad am Gyfarwyddion Cyfoes ar gyfer Hwb Chwedleua Myseliwm

BLWYDDYN 2

Cydnabyddiaeth ariannol

Ffi: £7,750 am 12 mis, ar sail 58 diwrnod o amser wedi ei ariannu, yn cael eu gweithio yn hyblyg am yr amser hwnnw a £1,000 tuag at ddatblygu eich ymarfer eich hun (amser wedi ei neilltuo ar gyfer eich gwaith creadigol eich hun) a £500 tuag at ddatblygiad proffesiynol (mentora, annog, cysgodi, cyrsiau)

Dyddiadau'r swydd

Ionawr 2023-Ionawr 2024

Gwybodaeth ddefnyddiol

Beth yw'r Hwb Chwedleua Myseliwm?

Nod yr Hwb Chwedleua Myseliwn yw i ddatblygu **ecosystem o chwedleua** wedi ei wreiddio mewn cymunedau lleol a fydd yn cysylltu gydag ecosystem chwedleua fwy ar draws Cymru. Yr hyn yr ydym yn ei olygu wrth ddweud ecosystem chwedleua yw rhwydwaith o weithgareddau chwedleua parhaus yn cael eu cynnal ar draws y wlad, gan gefnogi a chyfoethogi cymunedau a chynnig gwaith cyson i chwedleuwyr. Ein nod yw gweld chwedleua ar lafar fel celfyddyd yn tyfu a chynyddu ar draws Cymru ac i chwedleuwyr a phobl sy'n gweithio gyda chwedleuwyr ffynnu.

Ar hyn o bryd, fel rhan o Flwyddyn 1 ein prosiect, rydym wedi gweld saith o ddeiliaid swyddi yn eu lle yr ydym yn eu cefnogi i weithio yn eu cymunedau ar draws Cymru. Cyfarwyddion a Chynhyrchwyr yw'r bobl yma. Cynhwysir enghreifftiau o'u gwaith yn nes ymlaen yn y pecyn hwn.

Mae ein Hwb wedi ei lunio gydag amrywiol bartneriaid sydd am gefnogi datblygiad chwedleua fel ffurf gelfyddydol ar draws Cymru. Maent yn cefnogi'r Cyfarwyddion a'r Cynhyrchwyr yn eu gwaith. Yn cael eu cynrychioli ar yr Hwb ar hyn o bryd mae Gŵyl Chwedleua Ryngwladol Beyond the Border, Citrus Arts, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Menter Iaith Cymru a PeopleSpeakUp. Yn cefnogi'r prosiect hefyd mae Theatr Soar a Head4Arts.

Mae'r Hwb yn cyfarfod yn gyson ac yn ymwneud â recriwtio Cyfarwyddion a Chynhyrchwyr newydd ar gyfer y prosiect a'u cefnogi yn eu swyddi.

Cefnogir gwaith yr Hwb gan gronfa Cysylltu a Ffynnu Cyngor Celfyddydau Cymru.

Beth yw swyddogaeth y Cyfarwydd?

Rydym yn recriwtio dau chwedleuwr i ddatblygu rhaglenni o weithgareddau chwedleua sy'n ymestyn yn eang ac yn ddwfn i gymunedau, fel rhan o brosiect Blwyddyn 2 y prosiect Hwb Chwedleua Myseliwm.

Cefndir: Yng Nghymru'r canol oesoedd y "Cyfarwydd", yr hen chwedleuwyr Cymreig, oedd yn cofnodi ac adlewyrchu'r hyn oedd yn digwydd yn eu cymunedau, gan gynnig arweiniad cynnil trwy'r storïau yr oeddent yn eu hadrodd. Byddai'r Cyfarwydd yn cychwyn trwy brentisiaeth, a byddai'n mynd ymlaen i fod yn aelod mawr ei barch o gymdeithas, yn teithio a dod â newyddion i'r llysoedd, gan adlewyrchu cymdeithas y cyfnod trwy'r chwedlau - felly roedd yn creu rhwydweithiau mewn sawl ffordd.

Fel **Cyfarwydd Cyfoes** byddwch yn datblygu rhaglen o weithgareddau chwedleua, gan gynnwys perfformiadau chwedleua ac ymgysylltu, sy'n cyrraedd yn fwy eang ac yn ddyfnach i'r gymuned y mae eich preswylad wedi ei seilio ynddi. Bydd rhai cymunedau yn ddaearyddol, ond rydym hefyd yn barod i dderbyn ceisiadau ar sail cymunedau o ran diddordeb. Yn ystod blwyddyn cyfnod eich swydd, bydd eich gwaith yn:

- galluogi rhagor o bartneriaid o bob rhan o'r gymuned i gysylltu'n greadigol â chwedleua
- galluogi rhagor o bobl i brofi chwedleua fel rhan ystyrllon o'u bywydau dyddiol
- galluogi rhagor o bobl i ddatblygu creadigrwydd a hyder wrth ymgysylltu â chwedleua
- galluogi i'ch ymarfer a'ch sgiliau chi eich hun ehangu a dyfnhau trwy'r gwaith y byddwch yn ei gychwyn a'r amser y byddwch yn ei roi i'ch datblygiad artistig eich hun.

Bydd gennych berchenogaeth i ddatblygu eich syniadau a'ch rhaglen eich hun mewn partneriaeth â'ch cymuned, ac ymateb i angen a photensial eich ardal. Mae chwedleua ar lafar yn arfer amrywiol iawn, ac rydym yn barod i dderbyn ceisiadau sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth hwnnw gan gynnwys ar draws ystod eang o waith, iechyd a llesiant, dysgu iaith, addysg, perfformio, gan feithrin artistiaid newydd a hyfforddiant.

Fel rhan o'ch cais, byddwn yn gofyn i chi nodi'r cymunedau yr ydych yn fwyaf awyddus i weithio gyda nhw. Gallai'r rhain fod yn:

- Gymuned o ddiddordebau (pobl sy'n gysylltiedig trwy ddiddordeb/waith a rennir) e.e. gweithio gyda Llochesi Merched ar draws Cymru, neu weithio mewn lleoliad gofal iechyd.

- Gymunedau o ran hunaniaeth (diwylliant neu brofiad a rennir) e.e. gweithio gyda chymunedau De Asia.
- Gymuned Ddaearyddol (tref/stryd/ardal) e.e. gweithio yn Rhondda Cynon Taf.
- Gymunedau o Amgylchiadau (pobl sydd wedi eu clymu â'i gilydd trwy brofiad a rennir) e.e. gweithio gyda phobl sydd wedi profi galar neu golled.

Am ragor o enghreifftiau, edrychwch ar y gwaith a wnaed gan ein deiliaid swyddi presennol tua diwedd y pecyn recriwtio hwn.

Yn swydd y Cyfarwydd Cyfoes byddwch yn cyflawni swyddogaeth chwedleuwr yn eich cymuned benodol, gan ymateb i anghenion a photensial y gymuned, gan feithrin partneriaethau diwylliannol amrywiol a hefyd meithrin eich twf artistig eich hun.

Rydym yn arbennig o awyddus i glywed gan artistiaid sydd â diddordeb mewn gweithio trwy egwyddorion cyd-greadigol, gan weithio gyda neu ochr yn ochr â phobl a chymunedau i ddatblygu sgiliau ac arddangos gallu pobl. Hoffem hefyd roi blaenoriaeth i gyfraniad a phrofiad pobl ifanc a theuluoedd, pobl fyddar ac anabl, pobl Ddu, Asiaidd a mwyafrif byd-eang, y gymuned LGBTQIA+ a siaradwyr Cymraeg.

Ffioedd: Bydd pob Cyfarwydd yn cael gwarant o gronfa gychwynnol o £7,750 (a delir yn fisol), tua chwarter y cyflog cyfartalog yn y Deyrnas Unedig am tua 58 diwrnod o amser a gyllidir. Bydd sefydliadau sy'n dymuno datblygu prosiectau gan weithio gyda chi yn cael eu hannog i gynyddu'r ffioedd a'r treuliau hyn, gan drafod gyda deiliad y swydd, ar sail graddfa ac uchelgais eu prosiectau a'u mynediad at adnoddau. Bydd gennych hawl i ddyrannu eich amser a thrafod ffioedd o fewn fframwaith a awgrymir. Byddwch yn cael cefnogaeth i ddod o hyd i gyllid ychwanegol a chyflwyno ceisiadau am arian pan fydd hynny'n addas gan bartneriaid BTB a'r Hwb.

Manyleb Person ar gyfer swydd Cyfarwydd Cyfoes

Hanfodol:

- Profiad o ddatblygu a chyflawni gweithgareddau chwedleua cyfranogol gyda phobl o amrywiaeth o gefndiroedd
- Dealltwriaeth o ddull datblygu cymunedol
- Yn chwedleuwr neu berfformiwr profiadol â dealltwriaeth o ystod eang o gynulleidfaoedd/cyfranogwyr
- Profiad o ddatblygu perthynas waith effeithiol gyda phartneriaid
- Profiad o gyflawni deilliannau prosiect
- Profiad o fonitro a gwerthuso prosiectau
- Yn llawn cymhelliant â'r gallu i fod yn hunangynhaliol yn weinyddol
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiogelu ac amddiffyn plant
- Dull llawn dychymyg, brwdfrydig a hyblyg
- Sgiliau cyfathrebu gwych

- Wedi ymrwymo i gyfleoedd cyfartal a chyfiawnder cymdeithasol
- Yn gallu cynrychioli Beyond the Border, Gŵyl Chwedleua Ryngwladol Cymru ar bob lefel

Dymunol:

- Rhwydweithiau creadigol yn barod mewn cymunedau yng Nghymru
- Y gallu i gynnig hyfforddiant a mentora i chwedleuwyr eraill
- Profiad o drafod partneriaethau a chodi arian
- Y gallu i weithio yn y Gymraeg

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ddarostyngedig i wiriad DBS a thystlythyrau boddhaol.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan y rhai sy'n cael eu tangynrychioli yn sylweddol yn ein sector, fel pobl anabl, siaradwyr Cymraeg ac unigolion o'r Cymunedau LGBTQIA+, Du, Asiaidd a Mwyafrifoedd Byd-eang.

Byddwn yn cynnig cefnogaeth i bobl sy'n ymgeisio. Byddwn yn rhedeg sesiwn agored i bobl gael dysgu rhagor a gallwn sgwrsio am y swydd. Byddwn yn cynnig cyfweiliadau wedi eu gwarantu i siaradwyr Cymraeg, ac ymgeiswyr o gymunedau LGBTQIA+, Du, Asiaidd a Mwyafrifoedd Byd-eang, a rhai anabl.

Cefnogaeth a Rhwydweithio: Bydd yr Hwb Myseliwm, sy'n cynnwys nifer o bartneriaid, yn cefnogi eich gwaith. Byddwch yn cael cefnogaeth gan aelod o dîm Beyond the Border a fydd yn trefnu sgysiau cyson a chyswllt â chi.

Gwerthuso: Mae BTB wedi penodi gwerthuswr annibynnol i helpu i gofnodi a gwerthuso cryfderau a'r gwersi a ddysgwyd o'r cynllun hwn, i helpu i siapio cyfleoedd yn y dyfodol. Bydd cyfrannu at werthusiad yn ofynnol i'r holl ddeiliaid swyddi.

Er mwyn ymgeisio:

Anfonwch eich CV a llythyr cais atom:

Cofiwch gynnwys:

1. Eich sgiliau a phrofiad perthnasol fel chwedleuwr.
2. Beth fydddech chi'n hoffi ei archwilio fel Cyfarwydd Cyfoes, yng nghyswllt gweithgareddau cymunedol a'ch datblygiad chi eich hun
3. Manylion y gymuned yr ydych fwyaf awyddus o fod yn seiliedig ynddi – boed yn gymuned o ddiddordebau, hunaniaeth, daearyddiaeth neu amgylchiadau.
4. Esboniad byr yn nodi pam bod chwedleua ar lafar fel ffurf gelfyddydol yn bwysig i chi, a pham eich bod am ei wneud.

Gallwch ymgeisio hefyd trwy fideo, gan eich ffilmio eich hun yn ateb y cwestiynau hyn.

Anfonwch eich cais at recruitment@beyondtheborder.com erbyn **Dydd Llun 10fed o Hydref** am **5.00y.h.**

Byddwn yn cynnal dau gweminar ar-lein i rannu gwybodaeth am y prosiect a'r swyddi ar y dyddiadau isod:

Beth yw'r Hwb Myseliwm a'r roliau sydd ar gael? Gan gynnwys cwestiynau ac atebion gan dîm BTB. Awst 25, 7-8yh, ar Zoom.

Sut i fod yn chwedleuwr, Medi 7, 7-8.30yh, ar Zoom.

I fwcio lle ar gyfer y digwyddiadau yma, e-bostiwch recruitment@beyondtheborder.com.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y swydd ac y byddech yn hoffi eu trafod cyn cyflwyno cais, anfonwch eich ymholiadau at recruitment@beyondtheborder.com.

Os oes unrhyw gwestiynau neu ofyniadau hygrychedd eraill y gallem ni eu gwneud i gefnogi'ch cais, plis e-bostiwch ni hefyd.

Enghreifftiau o brosiectau cyfredol Cyfarwyddion Cyfoes

Deb Winter (mewn partneriaeth â PeopleSpeakUP)

Mae Deb Winter yn chwedleuwraig ac awdur o Orllewin Cymru. Mae hefyd wedi gweithio am flynyddoedd lawer yn y sector gwirfoddol, gan arwain cyrsiau hyfforddi i wirfoddolwyr, staff, ymddiriedolwyr a defnyddwyr gwasanaeth elusennau. Mae'n arbenigo mewn cynyddu hyder, sgiliau cyfathrebu, siarad cyhoeddus, a sgiliau hyfforddi a threfnu grwpiau ac mae'n adnabyddus am redeg gweithdai cefnogol sy'n croesawu pawb. Oherwydd ei chefnidir yn y sector gwirfoddol mae'n dod â'r profiad o weithio gyda phobl fregus i'w gwaith ym maes 'chwedleua gweithredol' fel Chwedleuwraig Gyswllt i PeopleSpeakUp a Beyond the Border.

Ar hyn o bryd, fel rhan o'i swydd fel Cyfarwydd, mae Deb yn creu sioeau 'gwyrd' newydd, wedi eu hysbrydoli gan gariad at y gwyllt ac wynebu'r her o ddefnyddio chwedleua i godi ymwybyddiaeth o newid hinsawdd, gan weithio ar storïau newydd am y cynnydd yn lefel y môr, datgoedwigo ac effaith 'ffasiwn taflu i ffwrdd', mewn partneriaeth â grwpiau amgylcheddol. Mae hefyd yn creu cysylltiadau â grwpiau lleol i hyrwyddo'r defnydd o chwedleua ym maes iechyd meddwl a llesiant, yn neilltuol i bobl unig a/neu fregus. Yn olaf, mae'n parhau ei gwaith

gyda Straeon Abergwaun, gan adeiladu a chryfhau'r gwaith yr oedd hi eisoes yn ei wneud fel chwedleuwraig.

Gwylwch fideo o waith Deb yma: <https://www.facebook.com/watch/?v=453292259936894>

Phil Okwedy (mewn partneriaeth â PeopleSpeakUp)

Mae Phil yn chwedleuwr perfformio a chrëwr chwedlau yn Ninbych y Pysgod sy'n tynnu'n fawr ar ei dreftadaeth ddeuol a'n diwylliannau llyuosog. Mae'n perfformio'n gyson mewn clybiau chwedleua a gwyliau ar draws Cymru, yn ogystal ag yng Ngŵyl Kea yng Ngwlad Groeg a Gŵyl Fabula yn Sweden. Cyfres o chwedlau gwerin o Gymru yw ei lyfr cyntaf, Wil & the Welsh Black Cattle sydd wedi eu plethu at ei gilydd a'u fframio o gwmpas chwedlau hen borthmyn y gorffennol. Yn ddiweddar mae Phil wedi bod yn gweithio gyda Theatr Genedlaethol Cymru ar Go Tell the Bees ac fe'i comisiynwyd fel rhan o raglen Cynrychioli Cymru, Datblygu Awduron o Liw Llenyddiaeth Cymru.

Yr un fath â Deb, mae Phil wedi gweithio gyda PeopleSpeakUp fel chwedleuwr cyn dod yn Gyfarwydd Cyfoes. Bu'n gweithio ar nifer o brosiectau oedd yn bwysig iddo yn bersonol fel rhan o'i waith, gan gynnwys y prosiect Men in Conversation, gan gefnogi grwpiau i archwilio a thrafod pethau na fyddent yn sôn amdanynt fel arfer.

Gwylwch ragor yma:

<https://www.facebook.com/BTBStorytelling/videos/1143577409775478/>

Jo Munton a Sandra Evans

Pypedwraig sy'n adrodd storïau yw Jo Munton o Ganolbarth Cymru sydd wedi perfformio o Sbaen i Siberia, o Ynys Môn i Ben-y-bont ar Ogwr.

Roedd ei sioe ar-lein ddiweddaraf, 'The Tales I was Told Tell' yn rhan o breswylad i bypedwyr rhyngwladol, ac yna fe'i cefnogwyd gan Wyl Bypedau Newcastle, Moving Parts.

Mae'n ddysgwraig Cymraeg angerddol ond mae wedi gweld y broses yn araf. "Am fy mod yn dyslecsig, rwy'n gwybod y gallaf fod yn arafach yn dysgu na'r rhan fwyaf. Rwyf wedi ailadrodd yr un cwrs ambell waith i adael i'r hyn dwi'n ei ddysgu setlo."

Mae'n cydweithio gyda'r tiwtor Cymraeg profiadol Sandra Evans fel rhan o'i phreswylad Cyfarwydd Cyfoes i gynnig cyfres o weithdai i ddysgwyr Cymraeg i gefnogi eu datblygiad a'r modd y maent yn dysgu'r iaith trwy chwedleua. Bydd rhai o'r gweithdai'n digwydd yn y cnawd –

ar hyd a lled Cymru – a rhai ar-lein. Ar ddiwedd y prosiect, mae'n bwriadu cynnal dathliad chwedleua gan ddysgwyr Cymraeg. Mae'n gweithio gyda chymuned trwy Gymru – un ryngwladol hyd yn oed ar adegau! – yn ei gwaith gyda dysgwyr Cymraeg.

Mair Tomos Ifans

Mae Mair wedi bod yn chwedleua ers ugain mlynedd, yn canolbwyntio ar gyflwyno storiâu, caneuon, ac arferion traddodiadol Cymru. Wedi ei geni a'i magu ym Meirionnydd mae'n gweithio ledled Cymru a thu hwnt, ac ers Covid-19 mae wedi bod yn cyflwyno agweddau o'r diwylliant hynafol trwy'r dechnoleg newydd. Mae'n gweithio yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan ddefnyddio cerddoriaeth a chân i ychwanegu at ei chwedleua.

Yn ei gwaith i Hwb Chwedleua Myseliwm bydd yn gweithio yn ardaloedd Mawddwy a'r Fawddach: rhan ddeheuol yr hen sir Feirionnydd. Mae'r ardal yn cynnwys y tir i'r de o Ddyffryn Mawddach, Bro Dysynni, Dyffryn Dulas a glannau gogleddol Afon Dyfi a Chwmwd Mawddwy. Mae ei gwaith yn lleol iawn: mae'n casglu storiâu lleol ac yn chwilio am ffyrdd i'w rhannu gyda'i chymuned, yn Gymraeg a Saesneg, ac mae'n casglu pobl mewn caffis ar gyfer sesiynau chwedleua bach, yn ogystal â theithio ar ei beic dibynadwy i ymweld â safleoedd hynafol.

